Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd



# Adroddiad Effaith Blynyddol

2021-22

# Cynnwys


3 Ein cylch strategol
4 Ein cenhadaeth
5 Swyddogion Sabothol
6 Llwyddiannau i fyfyrwyr
7 Prif-Weithredwr
8 Llywydd Undeb y Myfyrwyr
9 Ein brand newydd
10 Ymgysylltiad a boddhad
12 Gwobrau
13 Cymuned Caerdydd
14 Academaidd
17 Profiadau myfyrwyr
20 Lles a'r dyfodol
23 Adnoddau
24 Pobl
25 Digidol a Data
26 Cyllid
27 Ymddiriedolwyr 2021 - 22


Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

# Ein cylch strategol

**Yn 2021, lansiwyd ein Cynllun Strategol newydd a fydd yn ein harwain at 2025. Dyma'r flwyddyn academaidd gyntaf o'r cylch pum mlynedd lle'r ydym yn dilyn y weledigaeth a'r dyheadau newydd.**

## Ein Strategaeth

Nod y strategaeth yw ailadeiladu gweithgareddau a gwasanaethau i'r un lefelau ymgysylltu a oedd yn bodoli cyn y pandemig. Bydd ffocws hefyd ar incwm a boddhad myfyrwyr, trwy gydnabod na fydd pob un yn dychwelyd yn gyflym oherwydd y diffyg cof myfyrwyr a disgwyliadau newydd myfyrwyr yn dilyn Covid-19.

Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio'n fwy ar les myfyrwyr ac yn canolbwyntio ar y gwasanaethau sy'n helpu myfyrwyr i frwydro yn erbyn unigrwydd ac arwahanrwydd, y pethau a effeithiwyd arnynt fwyaf yn ystod y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig.



# Ein cenhadaeth

## Arweinyddiaeth myfyrwyr

- Byddwn ni'n sicrhau bod myfyrwyr yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel ar draws y sefydliad, ac yn teimlo bod ganddynt y grym i greu newid.

## Cynhwysiant

- Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n holl aelodau myfyrwyr, trwy leihau rhwystrau i gyfranogiad ac ymestyn allan i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

## Partneriaeth

- Byddwn yn sicrhau ein bod yn datblygu partneriaethau effeithiol a thrawiadol gyda sefydliadau sy'n ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau strategol - gan Brifysgol Caerdydd, y gymuned ehangach a sector Undeb y Myfyrwyr.

## Amrywiaeth

- Byddwn yn dathlu amrywiaeth ein staff a'n aelodaeth myfyrwyr, a chefnogi myfyrwyr i fod yn llais dros newid mewn anghyfiawnderau heriol ledled addysg a chymdeithas.



# Swyddogion Sabothol



# Llwyddiannau i fyfyrwyr

- **Fe wnaethom lansio rhaglen Lles y Gaeaf a gweithgaredd Trosfeddiant Lles gan ymgysylltu ag 20,000 o fyfyrwyr ar draws nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau.**

- **Sicrhawyd cyllid sylweddol ar gyfer datblygu'r mannau astudio i fyfyrwyr yn Lolfa IV ar gampws Parc y Mynydd Bychan.**

- **Cyflwynwyd "Parc y Mynydd Bychan ar Daith" i gefnogi myfyrwyr ar leoliad mewn rhannau eraill o'r DU.**

- **Fe wnaethom lobïo a chyflawni gostyngiad mewn ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd i gyrsiau ôl-raddedig.**

- **Fe wnaethom gynnal y twrnamaint Farsiti Prifysgolion Cymru cyntaf ers pandemig Covid19 gyda dros 5,000 o gefnogwyr Caerdydd yn mynd i Abertawe.**

- **Lansiwyd ymgyrch aflonyddu rhywiol yn ystod pythefnos y Glas i godi ymwybyddiaeth.**

# Prif-Weithredwr

Roedd 2021 yn flwyddyn bwysig i wasanaethau a gweithgareddau Undeb y Myfyrwyr i ail-strwythuro yn dilyn dwy flynedd o aflonyddwch. Rwy'n falch o ddweud ar y cyfan, gwnaethom hynny.

Roedd yn flwyddyn wych i'n mentrau nid er elw a wnaeth gyflawni lefelau incwm cadarnhaol ar ôl dwy flynedd o gyfleoedd cyfyngedig. Wnaeth ein gweithgareddau myfyrwyr fel cymdeithasau a'r undeb athletau sy'n dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr i gyflawni eu gwaith, gyflawni nifer aelodaeth sy'n torri record.

Ochr yn ochr â hynny, lansiwyd ein cynllun strategol newydd a brand sefydliadol wedi'i ddiweddaru - mae'r ddau brosiect hyn yn ein gosod yn dda ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

**Daniel Palmer**
**Prif-Weithredwr**

**Rydym yn falch iawn o'r hyn a gyflawnwyd gennym, dyma'r uchafbwyntiau "**



# Llywydd Undeb y Myfyrwyr

Roedd yn wych gweld gweithgarwch Undeb y Myfyrwyr yn dychwelyd bron i'r arfer yn 2021, rydym yn gwybod bod ein gwasanaethau wrth wraidd profiad myfyrwyr Caerdydd.

Yn 2021, gwnaethom flaenoriaethu lles myfyrwyr, wrth i fyfyrwyr ddweud wrthym y gafodd hwn ei effeithio fwyaf trwy gydol y pandemig. Diolch i gyllid allanol, llwyddom ni i ddarparu digwyddiadau a gweithgareddau am ddim gyda'r nod o wella lles ac unigrwydd myfyrwyr, rwy'n falch o ddweud bod dros 20,000 o fyfyrwyr wedi cymryd rhan mewn mentrau fel Bwydo eich fflat, wnaeth gannoedd elwa o gŵn therapi, cynnyrch mislif am ddim a llawer mwy.

**Gina Dunn**

**Is-Lywydd Addysg 2021-22**
**Llywydd Undeb y Myfyrwyr 2022-23**



# Ein brand newydd

Yn 2021, lansiwyd ein brand a'n hunaniaeth weledol newydd.

Ar ôl heriau'r llynedd, daeth datblygu ein brand newydd law yn llaw â'r cyfle cyffrous i ailadeiladu fel bod ein myfyrwyr yn gwybod pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud.

Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd yn sefydliad sydd â llawer o wasanaethau sy'n plethu gyda'i gilydd i wneud rhywbeth anhygoel ac roedd angen brand newydd arnom sy'n adlewyrchu hynny.

Ein eicon yw Undeb Myfyrwyr Caerdydd. Mae pob agwedd ar yr hyn rydym yn ei gyflawni, ein gwasanaethau, ein gwerthoedd, profiadau a dyheadau myfyrwyr Caerdydd i gyd yn cydblethu i greu ein stori.



# Ymgysylltiad a bodlonrwydd


**Adlamodd ymgysylltiad myfyrwyr yn y flwyddyn yn ôl i raddau helaeth, ac mewn rhai meysydd cynyddodd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yr effeithiwyd yn drwm arno gan Covid-19.**

Yn ystod y flwyddyn, roedd 22,144 o fyfyrwyr unigryw yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r Undeb (2021: 17,401), gyda 58,581 o ymgysylltiadau â gwahanol wasanaethau rhyngddynt (2021: 29,529. Mae'r ymgysylltiad hwn yn debyg i'r blynyddoedd 2019 a 2020 a gafodd eu heffeithio cyn lleied â phosibl gan Covid-19, ymddygiadau newidiol a chyfyngiadau cymdeithasol.

Fel y gwelir yn y graffeg, gwelodd llawer o wasanaethau gynnydd o gymharu â blynyddoedd blaenorol, lle mae rhai gwasanaethau wedi bod yn arafach i adfer. Roedd gweithgareddau a welodd adlam cryf yn cynnwys yr Undeb Athletau (clybiau chwaraeon), cymdeithasau a Rho Gynnig Arni. Mae gwirfoddoli cymunedol a datblygu sgiliau wedi gweld adferiad arafach.

## Boddhad

Dywedodd 81.4% o fyfyrwyr bod Undeb y Myfyrwyr yn cael effaith gadarnhaol ar eu bywyd myfyriwr.


Rho Gynnig Arni, 4,907
Cynrychiolwyr Academaidd, 982
Cyfarfod Blynyddol Aelodau, 693
Gwirfoddoli (CV) 235
Farsiti Cymru, 5,013
Siopswyddi, 2,118
Gyrrwyr, 75
Gwasanaethau dan Arweiniant Myfyrwyr, 74
Senedd Myfyrwyr, 65
Cyngor i Fyfyrwyr, 4,501
Urdd y Cymdeithasau, 8,714
Gosod Tai Myfyrwyr Caerdydd, 2,140
Refferendwm, 3,843
Gwasanaeth Datblygu Sgiliau, 1,322
Cyfryngau Myfyrwyr, 341
Ymgeisydd Etholiadol, 119
Lleoliadau, 11,345
Cymdeithasau, 276
Pleidleiswyr, 7,568
Undeb Athletau, 5,328

# Gwobrau

**Daethom yn ail yng ngwobrau Dewis y Myfyrwyr WhatUni ar gyfer Undeb y Myfyrwyr gorau yn 2022.**

**Arweiniodd ein cymdeithasau ddigwyddiad 'Nerd Varsity' a enillodd y Digwyddiad Gorau yng Ngwobrau Cenedlaethol y Cymdeithasau.**

**Cyflawnodd ein Hundeb Athletau yr 11eg safle ym mhencampwriaethau BUCS (a oedd yn golygu mai ni sydd â'r safle uchaf ymysg Prifysgolion nad sy'n ymwneud â chwaraeon).**

**Ar y 25ain o Dachwedd, dathlodd Xpress 25 mlynedd o ddarlledu gyda 25 o sioeau mewn un diwrnod.**



# Cymuned Caerdydd

**Un o flaenoriaethau UMC oedd sicrhau parhad grwpiau myfyrwyr ar ôl dwy flynedd o anweithgarwch a cholled o gof myfyrwyr trwy gydol yr amser hwn. Eleni gwelwyd cynnydd cadarnhaol yn nifer aelodaeth grwpiau, sefydlu digwyddiadau craidd a mentrau newydd gan grwpiau myfyrwyr.**

## Gweithgareddau ymgysylltu mewn niferoedd:

- 5,331 o aelodau'r Undeb Athletau sef ein lefel aelodaeth uchaf erioed.
- Roedd 93 o dimau BUCS yn cystadlu'n wythnosol mewn gemau a oedd yn gynnydd o 5 tîm o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Chwaraewyd 831 o gemau BUCS gyda 1,080 o fyfyrwyr yn cystadlu'n wythnosol.
- Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan Urdd y Cymdeithasau 7,257 o aelodau a 251 o gymdeithasau cysylltiedig, sef cynnydd o 6% a 34%.
- Cwblhaodd dros 1,000 o aelodau pwyllgor hyfforddiant ar-lein, menter newydd ar gyfer 2021.
- Ymunodd dros 400 o aelodau â chyfryngau myfyrwyr ar draws Gair Rhydd, Quench, CUTV ac Xpress Radio, cynnydd sylweddol o'r flwyddyn flaenorol.

## Rho Gynnig Arni

- Eleni gwelwyd cynnydd o 20% mewn presenoldeb Rho Gynnig Arni (GIAG). Cynhaliodd y tîm 36 o deithiau diwrnod gan ymgysylltu â 916 o fyfyrwyr. Diolch i gyllid CCAUC, cafwyd teithiau rhwng Ionawr a Mawrth am ddim, gyda mwy na 1,200 o fyfyrwyr ar restrau aros i'w mynychu.
- Cymerodd 8,300 o fyfyrwyr ran mewn sesiynau blasu grŵp myfyrwyr Rho Gynnig Arni, gan ganiatáu iddynt dreialu gweithgaredd cyn ymuno â'r gymdeithas. Roedd hyn yn gynnydd o 20% ar y flwyddyn lawn ddiwethaf o weithgarwch.

# Academaidd

## Nod UMC yw cefnogi myfyrwyr ym mhob agwedd ar eu bywyd academaidd, gan eu grymuso i lunio eu haddysg a darparu cefnogaeth pe bai pethau'n mynd o chwith.

Yn 2021 dychwelwyd at addysgu wyneb yn wyneb, tra'n parhau i gadw elfennau o'r newidiadau dysgu a gyflwynwyd yn ystod y pandemig. Cefnogodd y tîm Llais Myfyrwyr a Chyngor i Fyfyrwyr nifer o myfyrwyr i lywio amseroedd newidiol, dyma grynodeb:

- Mae Etholiadau'r Gwanwyn, Wythnos Siarad, digwyddiadau cymunedol academaidd, a chefnogaeth Swyddog Ymgyrchu yn feysydd llwyddiant nodedig i'r tîm eleni gydag ymgysylltiad sylweddol gan fyfyrwyr ym mhob un o'r meysydd hyn.
- Sefydlwyd Prosiect Cymunedol Academaidd newydd rhwng Ionawr a Mawrth gyda'r nod o ddod â myfyrwyr a staff ysgolion at ei gilydd. Collwyd perthnasau academaidd yn ystod y pandemig, a nod y digwyddiadau hyn oedd adeiladu undod cymdeithasol ac ymdeimlad o berthyn. Mynychodd dros 1,000 o fyfyrwyr ar draws y 12 digwyddiad.
- Cynhaliwyd ail fenter Parc y Mynydd Bychan ar Daith gan ddod â myfyrwyr ar leoliad ymhell o Gaerdydd at ei gilydd. Roedd myfyrwyr eisoes wedi rhoi gwybod i ni eu bod yn teimlo'n unig pan ar leoliad Ngogledd Cymru.

### Ymgysylltiad â gweithgareddau mewn niferoedd:

- Hyfforddwyd 1,021 o Gynrychiolwyr Academaidd a oedd yn ostyngiad bach ar y niferoedd blaenorol oherwydd newidiadau yn y math o gwrs a strwythur y cwrs.
- Bu 7,432 o bleidleiswyr unigol yn ymwneud ag Etholiadau'r Gwanwyn, gostyngiad o 18% oherwydd newid mewn talebau Amazon. Fodd bynnag, rydym yn dal i gynnal y niferoedd pleidleisio uchaf ar draws holl Undebau Myfyrwyr y DU
- Cwblhawyd 5,436 o gardiau Wythnos Siarad, 500%+ ar y flwyddyn flaenorol.
- Mynychodd 705 o fyfyrwyr y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.





**Yn ystod Pythe**
**fyw a'n noswe**
**dros 215,000 o**
**ystod y 32 wyt**
**6,718 o fynychw**

# Profiadau myfyrwyr

**Nod UMC yw darparu digwyddiadau a gwasanaethau rhagorol i bob myfyriwr, gan ganolbwyntio ar ddarpariaeth amrywiol drwy'r dydd a'r nos. Dyma'r maes yr effeithiwyd arno fwyaf trwy gydol y pandemig felly ffocws 2021 oedd ailsefydlu'r adeilad a'i holl wasanaethau ym meddwl myfyrwyr, gan sicrhau bod y cyfleusterau yn gwella yn unol â disgwyliadau myfyrwyr.**

Roedd gorberfformiad mewn llawer o'n lleoliadau masnachol drwy gydol 2021, ar ôl cael ei effeithio fwyaf yn ystod cyfnodau clo.

Yn ystod Pythefnos y Glas gyda'r gerddoriaeth fyw a'n nosweithiau clwb wythnosol, daeth dros 215,000 o fynychwyr drwy ein drysau yn ystod y 32 wythnos fasnachu, sef cyfartaledd o 6,718 o fynychwyr yr wythnos. Roedd ychydig dros 3,000 o bobl yn bresennol yn ein digwyddiad nos Fercher wythnosol ar gyfartaledd, sy'n cyfateb i ychydig dros 75,000 o fynychwyr eleni ar draws 25 o ddigwyddiadau.

**efnos y Glas gyda cherddoriaeth eithiau clwb wythnosol, daeth fynychwyr drwy ein drysau yn hnos fasnachu, sef cyfartaledd o wyr yr wythnos. "**



Mae'r Adran Lleoliadau wedi cynhyrchu gwerth trosiant o £4.4m eleni. Dyma'r tro cyntaf i'r adran gyflawni dros £4m.

Cyflawnodd Caru Caerdydd flwyddyn werthiant a dorrodd record, diolch i dair blynedd llwyddiannus o ddigwyddiadau Graddio wyneb yn wyneb, gan orffen y flwyddyn ar £271k o elw gros.

Llwyddodd Gosod Tai Myfyrwyr Caerdydd i ddarganfod cartrefi myfyrwyr ar draws 379 o dai, roedd hyn yn ostyngiad bach ar 2020. Dyma grynodeb:

**VKs wedi'u gwerthu:**



**100,000+**

**Peintiau wedi'u tynnu**

**5,000**

**Yr eitem fwyd fwyaf poblogaidd yn y Taf: bron i 5,000 o fyrgyrs cyw iâr!**

**379**

**Llety wedi'i rentu trwy Osod Tai Myfyrwyr Caerdydd**

**5,640**

**Hwdis a siacedi Caru Caerdydd wedi'u gwerthu**

**575**

**Cynyrch mislif wedi'u dosbarthu**

**1.2m**

**Cyflogau Siopswyddi wedi'u talu**

**2,000**

**Pecynnau bwyd am ddim**

# Lles a dyfodol

## Rhoddwyd ffocws sylweddol yn 2021-2022 ar les ac iechyd meddwl myfyrwyr gan fod y pandemig wedi achosi arwahanrwydd ac unigrwydd ymhlith y gymuned myfyrwyr.

Diolch i bron i £350,000 o arian grant a dderbyniwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), sefydlwyd cyfres o fentrau a digwyddiadau. Llwyddodd dros 20,000 o fyfyrwyr i elwa ar weithgareddau a mentrau a ariannwyd gan CCAUC, gan gynnwys:

- Bu 575 o fyfyrwyr yn cymryd rhan yn ein hymgyrch Urddas Mislif i ddarparu eitemau mislif am ddim i fyfyrwyr, gan gynnwys ychwanegu opsiynau mwy cynaliadwy fel cwpanau mislif.
- Fe wnaeth 3,832 o fyfyrwyr elwa ar estyniadau campfa am ddim a dosbarthiadau chwaraeon am ddim mewn partneriaeth â Chwaraeon Prifysgol Caerdydd.
- Bu 3,930 o fyfyrwyr yn ymwneud â digwyddiadau a dargedwyd at fenywod, LHDTC+, BME a chymunedau myfyrwyr eraill. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys sesiynau cŵn therapi 'Paws and Relax' (800 o fynychwyr), Cynhadledd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod (120 o fynychwyr), menter parseli bwyd "Bwydo eich fflat" gan leihau rhwystrau i goginio gyda chyd-letywyr newydd (2,000 o fyfyrwyr wedi derbyn pecynnau bwyd am ddim) a'r ailsefydlu o Ddigwyddiadau Ôl-raddedig (240 wedi'u mynychu).
- Darparu cymorth lles yn Gymraeg trwy gyfieithu tudalennau gwe craidd Cyngor i Fyfyrwyr a chyllid ar gyfer presenoldeb i'r confensiwn myfyrwyr Cymraeg ym Mangor (150 o fynychwyr) a Gig Diwylliannol Cymreig (250 o westeion).

**Rwy'n teimlo fy mod wir wedi gallu ymlacio a theimlo'n bositif am y diwrnod "**

**Wir wedi helpu fy iechyd meddwl a dihangfa o'r gwaith "**

**Rwyf bob amser yn gweithio felly anaml y byddaf yn ymlacio. Roedd hwn yn gyfle gwych i mi dreulio diwrnod yn gofalu amdanaf fy hun. Mae wedi helpu'n fawr "**

**Yn ogystal â'n gwaith ar les myfyrwyr, roedd ein Gwasanaeth Datblygu Sgiliau (SDS), sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a chyflogadwyedd myfyrwyr ar gyfer y dyfodol, yn gallu dychwelyd i sesiynau addysgu personol.**

Gan ddangos adferiad arafach o gymharu â gwasanaethau eraill, roedd ein Gwasanaeth Datblygu Sgiliau yn gallu cefnogi 2,306 o fynychwyr ar draws 1,237 o unigolion unigryw, sy'n ostyngiad bach i gymharu â'r rhai gofrestrodd yn y blynyddoedd blaenorol.



# Adnoddau

**Mae adnoddau'n cwmpasu sefydlogrwydd ariannol UMC ynghyd â'r gofodau ffisegol a'r asedau rydym yn eu datblygu ar gyfer mwynhad myfyrwyr. Mae adroddiadau ariannol i'w gweld ar dudalen 25.**

## Llefydd

- Cwblhawyd y gwaith o ailddatblygu Lolfa trydydd llawr y myfyrwyr i'w droi yn ofod astudio cymdeithasol sydd ar agor 24/7. Gofynnodd y myfyrwyr am rywbeth llai ffurfiol na'r mannau llyfrgell tawel o amgylch y campws, dyna pam rydym wedi buddsoddi mewn offer cymdeithasol gan gynnwys bwrdd pŵl a gemau bwrdd, i greu mannau astudio mwy hamddenol.
- Gosodwyd CCTV newydd ac amnewidiwyd y Sgriniau Hysbysebu.

## Datblygiadau yn y dyfodol

- Gan ddechrau'r gwaith ar ddatblygu gofod Balconi'r Neuadd Fawr ac adnewyddu'r Ganolfan Groeso, anelir at gwblhau'r ddau prosiect erbyn Medi 2022.



# Pobl

## Nod Undeb Myfyrwyr Caerdydd yw cael tîm cyfartal ac ymgysylltiol o staff a gwirfoddolwyr sydd wedi'u grymuso. Dyma sut hwyl gawson ni eleni:

- Boddhad o 91% gan staff mewn ymateb i "Byddwn yn argymell y sefydliad hwn fel lle gwych i weithio" yn yr Arolwg Ymgysylltiad Gweithwyr UCM. Mae hyn yn gynnydd o 16% ar y flwyddyn flaenorol.
- Adolygu ac ail-lansio'r pecyn gwobrwyo a chydnabod staff ar ôl y pandemig i staff gyrfa .

**Byswn yn argymell y sefydliad hwn fel lle gwych i weithio"**

# Digidol a data

## Cyfathrebu digidol oedd sylfaen yr holl farchnata yn ystod y pandemig, ac eleni gwelwyd dychweliad i ddarpariaeth ar y campws ochr yn ochr â pharhau i gynyddu cefnogaeth ddigidol.

- Cafodd ein sianel Tik Tok CardiffStudents newydd ei lansio gan ennill dros 1,500 o ddilynwyr erbyn Mehefin 2022.
- Wnaeth gwelliannau gwefan i cardiff students.com gyflawni dros 8 miliwn o ymweliadau dros y flwyddyn academaidd, cynnydd o 47%.



# Cyllid

## Adfer

Adferodd yr Undeb ar ôl cwymp enfawr mewn incwm yn y flwyddyn flaenorol, oherwydd Covid-19, a rhagorodd ar lefelau incwm cyn-bandemig. Cynyddodd trosiant i £12,318,155 (2021 - £5,967,127) gan arwain at warged net o £1,652,421 (2021 - diffyg net £32,322) gyda chronfeydd wrth gefn yn cynyddu i £1,534,034 (2021 - £1,205,186). Mae cronfeydd wrth gefn yr Undeb bellach wedi bodloni amcan yr Undeb a datganwyd am gyfnod hir o sicrhau o leiaf £1.3M mewn cronfeydd rhydd wrth gefn.

Sbardunwyd cynnydd yr Undeb mewn trosiant gan lefelau eithriadol o ymgysylltiad myfyrwyr â'n gweithgareddau a'n gwasanaethau, a gynyddwyd oherwydd cyllid gan y Brifysgol ac incwm grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi lles myfyrwyr yn ystod y pandemig. Roedd newid masnachol yr Undeb yn sylweddol gyflymach na'r disgwyl ac yn adlewyrchu'r consensws ymhlith ein myfyrwyr sy'n aelodau, o eisiau gwneud iawn am amser coll yn ystod y pandemig.

## Rhagolygon ar gyfer 2022/23

Dros haf 2022, fe wnaethom gynnal prosiect cyfalaf mawr i ail-alinio mynedfa flaen adeilad yr Undeb ag adeilad Canolfan Bywyd y Myfyrwyr, diweddaru derbynfa ein hadeilad ac ehangu'r Neuadd Fawr. Mae'r prosiectau hyn yn cael eu hariannu gan gymysgedd o arian wrth gefn yr Undeb ac yn defnyddio'r cymorth ariannol ychwanegol gan y Brifysgol. Bydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2022 a bydd yn darparu llwyfan gwell ar gyfer mwy o ymgysylltiad myfyrwyr a thwf incwm.

Yn ystod y flwyddyn rydym yn disgwyl gwneud diffyg oherwydd y gwaith a wnaed ac effaith costau staff uwch, chwyddiant, a chynnydd sydyn mewn biliau cyfleustodau. Yn ogystal, rydym hefyd yn disgwyl gweld yr effaith ar fywydau myfyrwyr oherwydd yr argyfwng costau byw. Er yn heriol, rydym yn disgwyl dychwelyd i sefyllfa adennill costau ar gyfer 2023/24.

## Gwasanaethau Undeb Caerdydd

O fewn is-gwmni masnachu'r Undeb, *Cardiff Union Services Limited*, cynyddodd trosiant i £5,237,048 (2021 - £1,268,583) gan arwain at elw gros o £2,611,536 (2021 - £977,827). Cynyddodd costau gweinyddol i £4,191,369 (2021 - £3,536,902) yn ystod y flwyddyn. Yn gyffredinol, adroddodd yr is-gwmni masnachol elw o £1,088,843 (2021 – diffyg a adroddwyd o £547,022). Mae'r holl elw a gynhyrchir gan Wasanaethau Undeb Caerdydd yn rhodd cymorth rhodd i'r rhiant-elusen, Undeb Myfyrwyr Caerdydd.

# Ymddiriedolwyr 2021 – 22

## Ymddiriedolwyr Sabothol

**Llywydd Undeb y Myfyrwyr:** Gina Dunn (o 1 Gorffennaf 2022)

**Llywydd Undeb y Myfyrwyr:** Hannah Doe (hyd at 1 Gorffennaf 2022)

**IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli:** Shreshth Goel (o 1 Gorffennaf 2022)

**IL Cymdeithasau a Gwirfoddoli:** Chris Grieve (ymddiswyddodd 17 Mawrth)

**IL Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau:** Olivia Evans (o 1 Gorffennaf 2022)

**IL Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau:** Meg Somerville (hyd at 1 Gorffennaf 2022)

**IL Addysg:** Noah Russell (o 31 Hydref 2022)

**IL Addysg:** Thomas Walsh (o 1 Gorffennaf 2022 hyd at 30 Medi 2022)

**IL Addysg:** Gina Dunn (hyd at 1 Gorffennaf 2022)

**IL Campws Parc y Mynydd Bychan:** Ashly Alava Garcia (o 1 Gorffennaf 2022)

**IL Campws Parc y Mynydd Bychan:** Sebastian Ripley (hyd at 1 Gorffennaf 2022)

**IL Myfyrwyr Ôl-raddedig:** Angie Flores Acuña (o 1 Gorffennaf 2022)

**IL Myfyrwyr Ôl-raddedig:** Orla Tarn

(hyd at 1 Gorffennaf 2022)

**IL Lles:** Rebecca Deverell (o 1 Gorffennaf 2022)

**IL Lles ac Ymgyrchoedd:** Charlotte Towlson (hyd at 1 Gorffennaf 2022)

## Ymddiriedolwyr Myfyrwyr

Tariq Awan (o 1 Gorffennaf 2021 hyd at 31 Mai 2022)

Matthew Bird (rhwng 1 Gorffennaf 2021 hyd at 30 Mehefin 2022)

Thomas Mahony-Kelross (hyd at 1 Gorffennaf 2021)

Stephen Oldfield (hyd at 30 Mehefin 2022)

Ryan Singh (hyd at 1 Gorffennaf 2021)

## Ymddiriedolwyr a Enwebir gan y Brifysgol

Jayne Sadgrove

Ray Singh CBE

## Ymddiriedolwyr Allanol

Natasha Applasamy (hyd at 21 Mawrth 2022)

Elliot Howells

Richard Roberts CBE OBE

Bethan Walsh (hyd at 7 Gorffenaf 2021)

## Uwch Aelodau o Staff

Prif Weithredwr: Daniel Palmer

Dirprwy Brif Weithredwr: Ben Eagle

Cyfarwyddwr Cyllid: Christine Akers (hyd at 30/09/21)

Cyfarwyddwr Cyllid: Jan Boyce (o 01/11/21)

Cyfarwyddwr Cyfathrebu: Raechel Mattey

Cyfarwyddwr Ymgysylltu a Chyfranogiad: Steve Wilford

## Swyddfa Gofrestredig

Plas y Parc, Caerdydd, Cymru. CF10 3QN

Rhif Cwmni Cofrestredig: 07328777

Rhif Elusen Gofrestredig: 1137163

Cardiff Students' Union | Undeb Myfyrwyr Caerdydd